

# CYNGOR CYMUNED BETHESDA BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo  
A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid  
*Clerk and Chief Financial Officer*

**Donna Watts**

Rhif Ffôn: 01248 602131

Ebost: [CyngorBethesda@ogwen.org](mailto:CyngorBethesda@ogwen.org)

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd dros Zoom  
**Nos Iau 29 Gorffennaf 2021**

## **PRESENNOL:**

### **Ward Ogwen**

Y Cynghorydd Neville Hughes

Y Cynghorydd Gwilym Owen

Y Cynghorydd Griff Morris

Y Cynghorydd Walter Williams

Y Cynghorydd Einir Williams

Y Cynghorydd Mary Jones

Y Cynghorydd Bleddyn Williams

### **Cyngor Sir**

Y Cynghorydd Paul Rowlinson

### **Ward Gerlan**

Y Cynghorydd Ann Williams

Y Cynghorydd Linda Brown

Y Cynghorydd Dyfrig Jones

### **Ward Rachub**

Y Cynghorydd Godfrey Northam

Y Cynghorydd Michael Williams

Y Cynghorydd Pearl Evans

**1. Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Bleddyn Williams  
**Ymddiheuriadau** – Dim-pawb yn bresennol.

### **2. Datgan Diddordeb**

Dim i'w ddatgan.

### **3. Materion Brys**

Enwebiad UNESCO – anfon llongyfarchiadau i'r Pwyllgor am eu holl gwaith caled.

Maes parcio Cae Star – i'w drafod ym mis Medi.

### **4. Cofnodion**

Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2021.

### **5. Materion yn codi o'r Cofnodion**

**5.1** Rhos y Nant – problem gyda dŵr yn sefyll. Cyngor Gwynedd am edrych ar wyneb y ffordd pan yn gwneud gwaith ail-wynebu ar y palmentydd.

**5.2** CCTV Stryd Fawr – y Clerc i holi Cyngor Gwynedd am ddiweddariad.

**5.3** Arwyddion stryd – Angen caniatad perchnogion yr adeiladau a prynu arwyddion.

**5.4** Llinellau melyn ym Mhant Dreiniog – llinellau wedi eu gosod oherwydd y loriau oedd yn arfer ymweld a C L Jones. Y Cyng. Rheinallt Puw wedi holi CL Jones ac am ddisgwyl i weld pwy fydd perchennog newydd y safle a'i drafod gyda nhw.

**5.5** Cae chwarae Rachub – Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd unwaith eto am yr arian Adran 106: Rhwymedigaethau Cynllunio ar gyfer caniatad cynllunio Llwyn Bedw.

**5.6** Llwybr o Gwernydd i Abercaseg – yn dilyn cyfarfod ar y safle, Cyngor Gwynedd am osod mwy o rwystrau.

## **6. Adroddiad Pwyllgor Cyllid**

Pawb wedi derbyn copi o'r adroddiad cyllid.

- Cae chwarae Pantdreiniog - Y Clerc wedi holi am ddiweddariad ar y pris ar gyfer yr offer a'r llawr. Wedi cael caniatad, ar lafar, gan Cyngor Gwynedd y bydd yn bosib cael prydles ar y tir.
- Adroddiad gan yr Archwilydd Mewnol - Trafodwyd y pwyntiau a godwyd gan yr Archwilydd Mewnol. Angen i'r Cyngor lunio Cofrestr Asedau cyn gynted a bo modd. Hefyd angen diweddarau'r canlynol yn ystod y flwyddyn, pob blwyddyn - Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol, Cofrestr Buddiannau, Asesiad Risg

## **7. Meinciau Gerlan**

Cyngor Gwynedd wedi cytuno i osod fainc yn cae chwarae Pont Waun. Y Clerc i holi Adra os oes unrhyw wrthwynebiad i osod fainc ar eu safle yn Stryd y Ffynnon, Gerlan.

## **8. Clybiau yn defnyddio Gorffwysfan**

Cais wedi dod gan aelodau'r gymuned i ddefnyddio Gorffwysfan ar gyfer eu clwb sy'n cael ei gynnal ddwy waith y mis. Penderfynwyd bod y Cyngor yn fodlon gyda hyn.

## **9. Diffibriliwr Braichmelyn**

Penderfynwyd gosod y diffibriliwr ar bolyn wrth rhif 5 a 6 Gernant. Y Clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd i osod y polyn angenrheidiol.

## **10. Torri gwair Mynwent Coetmor**

Trafodwyd y sefyllfa torri gwair yn y fynwent yn ddiweddar, sydd ar hyn o bryd yn 5 toriad gan Cyngor Gwynedd a'r Cyngor Cymuned yn talu am 2 'toriad a casglu'. Penderfynwyd bod y Cyngor yn fodlon talu am y casglu ar un o doriadau Cyngor Gwynedd.

## **11. Llys Dafydd**

Diweddariad – safle dal ar gau ar hyn o bryd gan bod rhan o'r wal gynnal yn syrthio. Y Clerc yn disgwyl am ddyfynbrisiau ar gyfer y gwaith.

## **12. Cyngor Llanllechid a Menter Iaith Dyffryn Ogwen – Cae Rhoxydd**

Yn dilyn trafodaeth hir, penderfynwyd nad oedd y Cyngor yn hapus i ddrafftio llythyr gyda'r geiriad arfaethedig. Penderfynwyd bydd y Clerc yn anfon llythyr at Brifweithredwr Cyngor Gwynedd ac Adra i ddatgan eu pryder a siom am y diffyg cyfathrebu a fu gyda'r datblygiad yma.

## **13. Maes parcio Gerlan**

Cafwyd diweddariad gan Meleri Davies am y camau nesaf i'w cymryd i ddatblygu'r maes parcio. Panel Cynllunio yn cwrdd ddiwedd mis Awst i drafod y cais. Y Cyng. Paul Rowlinson am fynd draw i'r swyddfa yn Gaernarfon i weld beth oedd gwrthwynebiadau'r bobl leol.

## **14. Gohebiaeth**

Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Gorffennaf 2021'

**14.1** Eboest gan Cyngor Cymuned Llandygai – llythyr ynglŷn a diffyg ymateb i ymholiadau gan Gyngor Gwynedd. Oes na ddiddordeb mewn mynychu cyfarfod i'w drafod? Penderfynwyd bydd y Clerc yn mynychu ar ran y Cyngor.

**14.2** Eboest gan Judith Kaufmann, Dyffryn Gwyrdd – Cais am rodd gan ymgyrch Dyffryn Ogwen di-blastig. Penderfynwyd rhoi rhodd o £100.

**14.3** E-bost gan Pwyllgor Carnifal Bethesda – cais am rodd tuag at y digwyddiad yn 2022. Penderfynwyd rhoi rhodd o £500.

**14.4** E-bost gan Archwilio Cymru – digwyddiad dros Zoom – 02.09.2021 - Rhan 2 – Eich Tref, Eich Dyfodol – Adfywio Canol Trefi. Y Cyng. Godfrey Northam am fynychu.

**14.5** E-bost gan Un Llais Cymru – Cynhadledd Arfer Arloesol 22.09.2021. Y Cyng. Godfrey Northam am fynychu.

**14.6** E-bost gan Un Llais Cymru – rhestr o'r hyfforddiant sydd ar gael yn ystod mis Awst. Pawb i gysylltu gyda'r Clerc os am fynychu.

**14.7** E-bost gan Parc Cenedlaethol Eryri – fel rhan o'u dathliadau 70 oed, yn cynnig pecyn o 70 o goed brodorol cymysg, gwarchodion bioddiraddadwy a stanciau i'r Cynghorau Cymuned. Penderfynwyd bod y Cyngor yn awyddus i dderbyn pecyn.

**14.8** Dyfynbris wedi ei dderbyn i adfer y gwaith pren gyda cymeriadau Llyfr Mawr y Plant sydd ym Mharc Meurig. Penderfynwyd derbyn y dyfynbris.

## **15. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**

### **Penderfyniadau**

**C20/0716/13/LL**

1 Lon Sarnau, Bethesda

Cais ar gyfer trosti modurdy i anecs is-raddol i'r eiddo adnabyddir fel '1 Lon Sarnau, Ffordd y Stesion, Bethesda'

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C20/0152/13/LL**

4 Rhes Ogwen

Cais ar gyfer trosti is-lawr eiddo i uned breswyl hunan gynhaliol ynghyd a rhannu modurdy cefn i fodurdy a phorth car

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C20/0805/13/LL**

Tir ger Gwernydd, Gerlan

Cais ar gyfer adeiladu maes parcio

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0087/13/DT**

Ty'n Llan, 17a Pant Glas, Bethesda

Cais i godi estyniad deulawr i ochr yr eiddo.

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0083/13/DT**

Craig Ogwen, Rhes Ogwen, Stryd Fawr, Bethesda

Cais ar gyfer codi tŷ gwydr i gefn yr eiddo.

**Penderfyniad:** Caniatwyd, gydag amodau.

**C21/0422/13/DT**

Bryn Tirion, 14 Ffordd y Mynydd, Rachub

Cais ar gyfer dymchwel modurdy unllawr bresennol a chodi adeilad deulawr yn cynnwys modurdy dwbl gyda anecs ar y llawr cyntaf

**C21/0408/13/DT**

31 Erw Las, Bethesda

**C21/0505/13/DT**

1 Glan Ogwen, Bethesda

**C21/0465/13/DT**

90 Ffordd Carneddi, Bethesda

**C21/0508/13/LL**

Canolfan Cefnfaes, Bethesda

**C21/0505/13/DT**

Tŷ Capel Bethel, Henbarc, Rachub

**Ceisiadau**

**C21/0682/13/AC**

Plot 3 Yr Ardd, Gerlan, Bethesda

**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau.

Dymchwel y modurdy presennol a chodi estyniad deulawr a sengl yn ei le

**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau

Cais ar gyfer dymchwel estyniad ochr unllawr a chodi estyniad unllawr yn ei le.

**Penderfyniad:** Ar y gweill

Cais ar gyfer dymchwel porth blaen a chodi estyniad to un codiad yn ei le

**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau

Newid defnydd o ganolfan gymunedol i ganolfan fentergarwch i gynnwys swyddfeydd, gweithdai, gofodau cyfarfod a 7 byncws a darpariaethau cysylltiedig

**Penderfyniad:** Ar y gweill

Newid defnydd y gweithdy a'r storfa i fod yn rhan o'r annedd breswyl presennol

**Penderfyniad:** Ar y gweill

Diwygio Amod 2 o ganiatad rhif C16/0007/13/LL er mwyn codi tŷ mwy

**Penderfyniad:** Y tŷ yn llawer mwy na'r cais gwreiddiol, ond dim gwrthwynebiad. Ond mae angen gwneud yn siwr bod y fynedfa dros dro wrth Allt Glanrafon yn cael ei chau cyn gynted a phosib.

**C21/0696/13/DT**

5 Rhes Gordon, Bethesda

Dymchwel adeiladwaith yn y cefn  
a chodi estyniad unllawr

**Penderfyniad:** Dim  
gwrthwynebiad.

**16. Taliadau**

Awdurdodwyd y canlynol

Cyflogau (Gorffennaf)	£386.10
CThEM (Gorffennaf)	£76.00
D Stephen – Llyfr Mawr y Plant	£1950.00
Zurich-polisi 3 blynedd	£1654.01
Scottish Power -trydan Gorffwysfan	£54.63
Dŵr Cymru – Llys Dafydd	£14.67
Ffranc – gosod diffib Rachub	£227.02
Ffranc – gosod diffib Gerlan	£229.28
Partneriaeth Ogwen	£35.94
Scottish Power – golau Nadolig	£30.44
Scottish Power – golau Nadolig	£26.55